Enw




DARLLENWCH
Ioan 4: 4-30

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Pobl yn cwrdd â Iesu.**

## Stori 3 Gwraig o Samaria

Un diwrnod, roedd Iesu'n cerdded trwy wlad o'r enw Samaria. Roedd wedi blino ac eisteddodd ger ffynnon i orffwys. Daeth dynes/menyw heibio â llestr i ddal dŵr. Roedd hi wedi dod i nôl dŵr o'r ffynnon.



**Llanwch y bylchau.**

Roedd Iesu'n cerdded trwy wlad S __ __ __ __ __ a.

Eisteddodd i orffwys ger

ff __ __ __ __ __.

Daeth y wraig i nôl d __ __.

Edrychodd y wraig ar y dyn dieithr. Roedd hi'n meddwl mai Iddew oedd e. Roedd hi'n siŵr na fyddai'r dyn eisiau siarad â hi achos doedd yr Iddewon ddim yn siarad â phobl o Samaria. Roedd hi'n synnu pan ofynnodd Iesu iddi estyn diod iddo. Roedd hi'n synnu fwy pan ddywedodd Iesu y gallai roi

"dŵr bywiol" iddi.

**Lliwiwch y geiriau.**

Wrth iddyn nhw siarad, esboniodd Iesu wrth y wraig pwy oedd e mewn gwirionedd - mai ef oedd y Gwaredwr roedd Duw wedi'i anfon o'r Nefoedd. Credodd y wraig Iesu. Gadawodd hi ei llestr wrth y ffynnon a brysio i ddweud wrth y bobl eraill am Iesu. Daeth llawer o bobl i weld Iesu a chredodd llawer ohonyn nhw ynddo ef.

Mae Duw eisiau i ni gredu yn Iesu fel y gwnaeth y wraig wrth y ffynnon.